Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg

# Pecyn Adnoddau Datblygiad Proffesiynol Dysgu ac Addysgu

## Galwad am gyfraniadau

**A fyddech yn fodlon rhannu astudiaeth achos datblygiad proffesiynol gyda darparwyr AU/AB eraill?**

## Cefndir

1 O 1af Ebrill 2024, bydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY/Y Comisiwn) yn gyfrifol am strategaeth, cyllido a throsolwg rheoleiddiol o'r sectorau addysg ôl-16 yng Nghymru, sef addysg bellach, gan gynnwys colegau a chweched dosbarth ysgolion; addysg uwch; addysg oedolion a dysgu oedolion yn y gymuned; prentisiaethau a hyfforddiant.

2 Nod y CADY fydd cefnogi sector trydyddol cydlynol yng Nghymru, trwy arferion cydweithredol a chynhwysol, gydag ymagwedd gydgysylltiedig at gyllido a rheoleiddio

3 Mae cyfrifoldebau'r Comisiwn yn eang ac yn cynnwys:

- Arddel ymagwedd system gyfan at gyllido ymchwil ac arloesedd, ynghyd â'r gallu i ddarparu cyllid i ystod eang o sefydliadau AU ac AB.
- Diogelu buddiannau dysgwyr, gan sicrhau y gosodir yr un gwerth ar ddysgu galwedigaethol ac academaidd.
- Alinio addysg a hyfforddiant yn agosach ag anghenion cyflogwyr.
- Monitro perfformiad a llywodraethiant, tra'n diogelu rhyddid academaidd sefydliadau.
- Monitro a hyrwyddo gwelliant mewn darparwyr addysg a hyfforddiant.
- Cynyddu argaeledd addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg ac annog unigolion i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.[1]

4 Sefydlwyd y Comisiwn o ganlyniad i Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022. Bydd gwaith y Comisiwn yn cael ei arwain gan sut y mae'n bwriadu cyflawni ei ddyletswyddau strategol, a nodir yn y ddeddfwriaeth ac sy'n cynnwys y canlynol:

---

[1] Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi'i ddynodi fel y corff i gynghori'r Comisiwn yn y maes hwn.

- Hyrwyddo dysgu gydol oes.
- Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal.
- Annog cyfranogiad mewn addysg drydyddol.
- Hyrwyddo gwelliant parhaus mewn addysg drydyddol.
- Hyrwyddo ymchwil ac arloesedd.
- Hyrwyddo cydweithio a chydlyniad mewn addysg drydyddol ac ymchwil.
- Hyrwyddo addysg drydyddol trwy gyfrwng y Gymraeg.

5 Yn ystod y cyfnod sefydlu, mae CADY yn gallu arfer swyddogaethau sy’n ymwneud â phontio llywodraethiant a goruchwylio o CCAUC, megis penodi staff a chreu pwyllgorau. Ar y cam hwn, mae CCAUC yn parhau i fod yn gyfrifol am gyllido a rheoleiddio addysg uwch, ac mae Llywodraeth Cymru’n cadw cyfrifoldeb am addysg bellach a chweched dosbarth, prentisiaethau, a dysgu oedolion.

6 Fel rhan o drefniadau cyllido gyda CCAUC, mae QAA yn arwain ar nifer o gyfleoedd cydweithio rhwng addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys y prosiect a amlinellir isod. Mae'r prosiect hwn yn ffurfio ffrwd waith allweddol yn ein paratoadau ar gyfer y CADY ac mae’n adeiladu ar waith a gwblhawyd gan QAA yn 2022-23 ar Arsylwi Addysgu gan Gymheiriaid.

## Teitl y prosiect

7 Enw’r prosiect yw: **'Effaith datblygiad proffesiynol staff ym maes dysgu ac addysgu ar wella profiad y myfyriwr/dysgwr a hybu deilliannau myfyrwyr/dysgwyr'**.

## Disgrifiad o'r prosiect

8 Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar rannu arfer da ar draws y sector AU/AB yng Nghymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar fentrau dysgu proffesiynol mewn dysgu ac addysgu a'u heffaith ar ddysgu myfyrwyr. Bydd cynrychiolydd QAA yn cynnal cyfweliadau ar-lein yn dilyn yr enghreifftiau a dderbynnir gan ddarparwyr, er mwyn cael rhagor o fanylion. Yna bydd yr holl gyflwyniadau a dderbynnir yn cael eu cofnodi fel astudiaethau achos gan QAA a'u rhannu ar draws y sector mewn Pecyn Adnoddau Dysgu Proffesiynol ac mewn cynhadledd AU/AB QAA Cymru yn ystod Haf 2024.

9 Gall menter sy'n rhoi sylw i wella deilliannau myfyrwyr fod yn weithgaredd ar draws darparydd cyfan, neu'n un a gyflawnir ar draws cyfadran neu adran. Yn yr un modd, efallai y bydd unigolyn am gyflwyno astudiaeth achos yn seiliedig ar brosiect ymchwil gweithredol llwyddiannus y mae wedi'i gynnal yn yr ystafell ddosbarth.

## Beth ydym ni’n gofyn i ddarparwyr ei wneud?

10 Os oes gennych chi ddiddordeb mewn cyflwyno un neu fwy o fentrau dysgu ac addysgu i'w cynnwys yn y pecyn, cwblhewch y ffurflen gan amlinellu eich enghraifft/enghreifftiau (hyd at 750 gair ar gyfer pob cyflwyniad) ynghyd â manylion cyswllt allweddol, fel y gellir trefnu cyfweliadau.

11 Croesewir pob math o ddatblygiad proffesiynol sy'n dangos effaith ar ddeilliannau myfyrwyr. Gall y rhain amrywio o weithgareddau anffurfiol, byr ac unigol i enghreifftiau o fentrau datblygu estynedig ar raddfa fwy, gan gynnwys y rhai sydd ar y gweill.

12 Yn ogystal ag amlinellu'r fenter, dylai eich cyflwyniad gynnwys gwerthusiad ohoni, gan ganolbwyntio ar yr hyn mae’r darlithydd yn ei ddysgu a newidiadau mewn ymarfer, ynghyd ag unrhyw newidiadau canfyddedig ym mherfformiad neu ymddygiad y myfyrwyr/dysgwyr. Bydd yr agweddau hyn wedyn yn cael eu harchwilio'n fanylach yn y cyfweliadau ar-lein. Bydd cyfweliadau’n para tua 30 munud, a gellir eu cynnal yn Gymraeg neu yn Saesneg.

## Dyddiadau allweddol

13 Dylai pob cyflwyniad ddod i law erbyn 22ain Ionawr 2024. Cynhelir cyfweliadau ag unigolion allweddol, i gael rhagor o wybodaeth, yn ystod Chwefror-Mawrth 2024.

14 Bydd drafft o’r Pecyn Adnoddau Dysgu Proffesiynol yn cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mai 2024, mewn ymgynghoriad â’r rhai sydd wedi cyflwyno astudiaethau achos. Bydd y pecyn adnoddau terfynol yn cael ei gyhoeddi yn ystod haf 2024.

## Oes gennych chi ddiddordeb mewn rhannu eich profiadau ac eisiau cyfrannu?

15 Os hoffech chi drafod astudiaeth achos bosibl cyn ei chyflwyno, cysylltwch â Christine Jones (christine.jones@qaa.ac.uk).

**Diolch i chi am ddangos diddordeb yn y prosiect hwn a ariennir gan CCAUC.**

© Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2023
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 a SC037786
www.qaa.ac.uk